**Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol**

**19 Hydref 2017**

## Map Rhwydwaith Integredig Pen-y-bont ar Ogwr

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynllunio a rhoi ei ddyletswyddau ar waith o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), gan egluro y broses a ddilynwyd ganddynt ynghylch cysylltu â'r gymuned, blaenoriaethu a chynllunio llwybrau teithio llesol yn barod i'w cyflwyno. Bu'r Bwrdd yn trafod adnoddau a'r ffaith bod nifer o staff yr awdurdod lleol yn sbarduno'r gwaith o gysylltu'n effeithiol â'r gymuned. Bu trafodaeth hefyd ynghylch y perygl o godi disgwyliadau afrealistig a sut i reoli hyn yn effeithiol. Bu'r Bwrdd yn trafod y berthynas rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bwrdd Iechyd a data y Gymhareb Cost a Budd o deithio llesol.

## Lefelau Teithio Llesol 2016-17

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am ddata teithio llesol. Mae bwletin ystadegol llawn i gael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y tueddiadau cyfredol o ran cerdded a beicio gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth gydestunol o'r set data ehangach. Bu'r Bwrdd yn trafod dadansoddiad pellach y gellid ei gynnwys yn y bwletin nesaf gan gynnwys edrych ar gyfraniad teithio llesol o ran cael oedolion i wneud y gweithgarwch corfforol a argymhellir pob wythnos. Gofynnodd y Bwrdd hefyd a oedd modd casglu gwybodaeth ynghylch plant yn teithio'n llesol y tu hwnt i deithio i'r ysgol.

## Teithio i'r Ysgol

Mae teithio llesol i'r ysgol yn faes pwysig, ac mae rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Gofynnwyd i'r aelodau hynny o'r Bwrdd sy'n darparu'r rhaglenni ar gyfer ysgolion a gweithgarwch berthnasol arall ddarparu trosolwg i'r Bwrdd o'r gwaith ledled Cymru.

- <u>Diwygio'r Cwricwlwm - Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles</u>
  Cafodd y Bwrdd drosolwg o'r newidiadau i'r cwricwlwm gan gynnwys y prosesau gwahanol a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau. Roedd gan y Bwrdd ddiddordeb yn y newidiadau sy'n cael eu gwneud a thrafodwyd ble yr oedd modd iddynt fwydo i mewn i drafodaethau i sicrhau bod Teithio Llesol yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu yn y cwricwlwm newydd.

- <u>Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol</u>
  Cafodd y Bwrdd ddiweddariad byr o waith y Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol gan gynnwys gwylio fideo newydd sy'n cyd-fynd â'r ffeithlun O'r Drws i'r Ddesg, a ddatblygwyd i hyrwyddo teithio llesol.

- <u>Teithio Llesol, Sustrans</u>
  Mae Sustrans wedi diweddaru'r Bwrdd ar y datblygiadau y maent wedi'u gweld gyda'r rhaglen Teithio Llesol sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u huchelgais i geisio cynyddu defnydd rhieni o deithio llesol.

- <u>Cerdded i'r Ysgol,</u> Living Streets

Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf ar waith Living Streets gan gynnwys rhaglenni Cerdded i'r Ysgol a WOW, sydd bellach yn cael eu defnyddio gan 10 ysgol yng Nghymru. Bydd meddalwedd Cerdded i'r Ysgol Living Streets yn cynnwys opsiwn yn y Gymraeg yn fuan.

- Beicio Cymru - Go Ride
  Rhoddodd Beicio Cymru y newyddion diweddaraf ar y gwaith y maent wedi'i wneud ledled Cymru gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a chlybiau cymunedol, gan drafod y swyddogion sy'n cael eu hariannu gan HSBC fydd yn canolbwyntio ar ardal Caerdydd ond allai ehangu eu gwaith ar draws y ddinas-ranbarth.

**Y Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru**

Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf ar weithgarwch Llywodraeth Cymru gan drafod paratoadau ar gyfer y Gynhadledd Teithio Llesol, gan gynnwys themâu posibl. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod y broses gwerthuso Mapiau Rhwydwaith Integredig.

**UNRHYW FATER ARALL**

i. Bu'r Bwrdd yn trafod y rhaglenni newid ymddygiad a'r angen i barhau i ariannu cynlluniau fydd yn helpu i ddymchwel rhai o'r rhwysstrau i bobl sy'n dewis teithio llesol.

ii. Awgrymwyd y dylid cynnwys diogelwch ar y ffyrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol i edrych ar y berthynas rhwng teithio llesol a diogelwch ar y ffyrdd. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad byr ar y digwyddiad Diogelwch ar y Ffyrdd a gynhaliwyd ar 18 Hydref.

iii. Bu'r Bwrdd yn trafod y cynnig y gellid newid pob llwybr i ganiatáu beicio o dan ddeddfwriaeth gefn gwlad newydd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Chwefror 2018**